

YMARFER 2: Sylwadau

Volunteering describes what people choose to do in their spare¹ time, without pay, that benefits other people or contributes to the services or amenities within the community². There are literally hundreds of ways in which you can get involved - all you need is a little time and energy. In return you will be rewarded with³ a sense of personal achievement and satisfaction.

Some people know exactly what they want to do - all they need is a telephone number and away they go. But for most people, the choice can be intimidating. Asking yourself a number of questions can help narrow down the field. For example:

1. How much time do I have and when am I available?
2. How far am I prepared to travel and is the payment of expenses important to me?
3. What interests and experiences can I bring to my volunteering?
4. Do I like working one-to-one or with groups of people?
5. Do I have what it takes to work with troubled young people, the disabled or the elderly?
6. Are there particular issues or causes that I would like to help?⁴

Volunteer bureaux can provide information and advice on volunteering and there's a volunteer bureau in each local authority area.

The website is a useful way of finding out what the possibilities are. Try it out - go back to the Home Page, put the cursor on the map of Wales and see the names of the volunteer bureaux light up.⁵

1. **Cystrawen/ Cywirdeb** **Volunteering describes what people choose to do in their spare time...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Gwirfoddoli yw disgrifiad or hyn mae pobl yn ei wneud yn eu amser hamdden*
2. *Mae gwirfoddoli'n disgrifio'r hyn mae pobl yn dewis gwneud yn eu hamser hamdden*
3. *Mae gwirfoddoli'n disgrifio'r hyn mae pobl yn dewis eu gwneud yn eu hamser hamdden*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae gwirfoddoli'n disgrifio'r hyn y mae pobl yn dewis ei wneud yn eu hamser hamdden*

SYLW:

1. Yn Afl.1 uchod, ceir camsillafu 'o'r'.
2. Mae'r gystrawen *mae pobl yn dewis gwneud* yn annerbyniol.

Mae angen cynnwys rhagenw personol yma, hynny yw, *yn dewis ei wneud*.

3. *ei wneud* sy'n gywir yma ac nid *eu gwneud*. Cyfeirio at yr unigol y mae'r rhagenw personol.

4. Nid yw cystrawen Afl.1 yn gywir yn y Gymraeg. Meddylwch am y frawddeg Saesneg 'A dog is an animal'. Y cyfieithiad cywir fyddai 'Anifail yw ci' ac nid 'Ci yw anifail'. O gymhwyso'r patrwm hwn i'r frawddeg yn Afl.1, byddai gofyn dweud 'Disgrifiad o'r hyn y mae pobl yn ei wneud yn eu hamser hamdden yw gwirfoddoli'. Cewch ragor o wybodaeth am y frawddeg gypladol yn *Gramadeg Cymraeg* gan David Thorne, tt.361–5.

2. Ystyr/ Cywair

that benefits other people or contributes to the services or amenities within the community

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *sydd o fudd i bobl neu gyfranwyr eraill tuag at wasanaethau neu ddarpariaethau o fewn y gymdeithas*
2. *sydd o fudd i bobl eraill neu'n cyfrannu at y gwasanaethau neu'r hynawsoddion o fewn y gymuned*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *sy'n rhoi budd i bobl eraill neu'n cyfrannu at y gwasanaethau neu'r amwynderau yn y gymuned*

SYLW:

1. Nid yw Afl.1 yn rhoi gwir ystyr y Saesneg gwreiddiol.
2. Ni ddewiswyd y termau mwyaf addas yn Afl.1: *darpariaethau* yn lle *amwynderau* am 'amenities' *cymdeithas* yn lle *cymuned* am 'community'.

3. Ystyr/ Cywair

In return you will be rewarded with...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *O ganlyniad, cewch y pleser o deimlo cyrhaeddiad personol a boddhad*
2. *Yn ôl byddwch yn cael clod, a chyflawniad personol... a boddhad*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Eich gwobr fydd teimlad o gyflawniad personol a bodlondeb*
2. *Yn gydnabyddiaeth, cewch ymdeimlad o lwyddiant personol a boddhad*

SYLW:

1. Mae Afl.1 ac Afl.2 yn dilyn y Saesneg yn slafaid, er enghraifft, *yn ôl* am 'in return'.
2. Ni ddewiswyd y termau mwyaf addas yn y cyd-destun, er enghraifft, *cyrhaeddiad personol* am 'personal achievement'.

Rhaid dweud, wrth gwrs, fod byd addysg yn defnyddio 'cyrhaeddiad' am 'achievement', er enghraifft, 'targedau cyrhaeddiad'. Ond nid yw'n tycio yn y cyd-destun sydd yma.

4. **Cystrawen/
Cywair** **Are there particular issues or causes that I would like to help?**

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *Oes materion penodol neu achosion a hoffwn i helpu?*
2. *A fyddem yn dymuno helpu gyda materion neu achosion arbennig?*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *A oes materion neu achosion penodol yr hoffwn eu helpu?*

SYLW:

1. Mae'r cymal perthynol a geir yn Afl.1, sef *a hoffwn i helpu*, yn anghywir. Trowch i *Gramadeg Cymraeg* (David Thorne), tt.188–199, ac yn benodol tt.193–196, i ddarllen beth yw'r gwahaniaeth rhwng Cymal Perthynol a gyflwynir ag 'a' a'r rhai a gyflwynir ag 'y'.
2. Unwaith eto, bydd angen y rhagenw personol yn yr ymadrodd *hoffwn i helpu*, yn rhoi 'yr hoffwn i **eu** helpu'.
3. Byddai *penodol* yn well yn y cyd-destun hwn nag *arbennig*.
4. Yn Afl.2 uchod mae ffurf y ferf yn anghywir. Cyfieithu 'l' y mae'r ferf *a fyddem*. Ond ffurf y person cyntaf lluosog sydd gan yr ymgeisydd. Disgwylid 'a fyddwn' yma.

5. **Cywair/
Ystyr** **Try it out – go back to the Home Page, put the cursor on the map of Wales and see the names of the volunteer bureaux light up.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Cer i gael golwg arno – cer yn ôl i'r dudalen gartref a symud y saeth dros y map o Gymru i weld enwau'r canolfannau gwirfoddoli'n goleuo ar y sgrîn.*
2. *Rhowch gynnig iddi hi – ewch yn ôl i'r safle cartref, rhowch y rhedwr ar y map o Gymru a gwelwch fiwro'r gwirfoddolwyr yn goleuo i fyny.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Rhowch gynnig arni – ewch yn ôl i'r Hafan, rhowch y cyrchwr ar y map o Gymru ac edrychwch ar enwau'r canolfannau gwirfoddoli a fydd yn ymddangos/yn goleuo.*

SYLW:

1. Byddwn yn disgwyl i bobl sy'n defnyddio cyfrifiaduron i gyfieithu ac ati fod yn gyfarwydd â'r termau 'gwefan' am 'website' (a sylwer nad 'we' yw); *hafan* am 'home page'; a *cyrchwr* am 'cursor'.
2. Pam y newid sydyn i alw 'ti' ar y darlennydd? Ffurf yr ail berson unigol gorchmynnol yw *cer*. Nid yw'n gredadwy rywfodd! Mae

angen bod yn gyson.

3. Mae'r cyfieithydd yn dilyn y Saesneg yn slafaidd yn cyfieithu 'light up' drwy ddweud *goleuo i fyny*.

4. 'rhai cynnig arni' yw'r idiom Gymraeg; nid *rhai cynnig iddi*.

5. Nid yw *a gwelwch fiwro'r gwirfoddolwyr yn goleuo fyny* yn Afl.2 yn cyfieithu ystyr y Saesneg yn gywir. Cofier mai gair lluosog yw 'bureaux'.

* **Cywirdeb**

Cafwyd amryw wallau sillafu dianghenraid:

- canolfanau – canolfannau
- arbenig – arbennig
- boddhâd – boddhad
- engraifft – enghraifft
- cwestiynnau – cwestiynau
- nerth ag egni – nerth ac egni
- i ffwrdd a nhw – i ffwrdd â nhw
- y rwyf – yr wyf
- sgrîn – sgrin (ond 'ysgrîn')

Cafwyd nifer o enghreifftiau o deipio 'meant am 'maent'.

SYLW:

Petai'r ymgeisydd wedi darllen y gwaith yn ofalus cyn ei gyflwyno, byddai wedi gweld y gwallau hyn a chael cyfle i'w cywiro.